

Cyngor Partneriaeth Cymru – 2 Mawrth 2023

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: ‘*Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol*’

Diben

1. Diweddarau Cyngor Partneriaeth Cymru ar waith sydd ar y gweill i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu / Cytundeb Cydweithio i ‘Barhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol’.
2. Gofynnir i aelodau'r Cyngor Partneriaeth am eu barn ynglŷn â'r cwestiynau i'w hystyried ym mharagraff 17 fel rhan o'r drafodaeth.

Cefndir a chyd-destun

Adolygiad o Bartneriaethau Strategol 2019-20

3. Cynhaliwyd Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru yn 2019-20, yn dilyn [argymhelliad gan y Gweithgor ar Lywodraeth Leol](#). Ystyriodd y tîm adolygu sefyllfa eang partneriaethau i nodi'r meysydd allweddol lle teimlwyd bod cymhlethdod neu ddyblygu diangen, a chyfleoedd i symleiddio a rhesymoli mewn ffordd bragmatig â ffocws.
4. Gwnaeth [adroddiad terfynol yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol](#) un ar ddeg o argymhellion yn adlewyrchu camau ymarferol i symleiddio'r sefyllfa bartneriaeth, ond daeth i'r casgliad nad oedd cefnogaeth i unrhyw bartneriaeth benodol gael ei diddymu a dylid canolbwyntio ar bartneriaethau sy'n cael eu cefnogi i symleiddio eu trefniadau eu hunain yn lleol. Nododd fod hyn eisoes wedi digwydd mewn rhai rhannau o Gymru. Roedd yr adroddiad hefyd wedi argymhell y dylai Cyngor Partneriaeth Cymru adolygu'r sefyllfa bartneriaeth o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried a oes angen newid un o bolisiâu neu ddeddfwriaethau Llywodraeth Cymru. [Derbyniwyd yr argymhellion gan Gyngor Partneriaeth Cymru](#) ym mis Mehefin 2020.

Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraeth / Cytundeb Cydweithio

5. Mae [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ‘Barhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol’. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn rhan o'r [Cytundeb Cydweithio](#) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae'r ymrwymiad yn cyd-fynd â gwaith ac argymhellion yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ac yn adeiladu arnynt.
6. Yr egwyddor allweddol o hyd yw y dylai unrhyw newidiadau i drefniadau partneriaeth gael eu harwain yn lleol, wedi'u hysgogi gan yr hyn sy'n gweithio orau yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a pherthnasoedd presennol.

Ymarfer ymgysylltu i barhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol

7. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru, Cefin Campbell AS, yn cynnal ymarfer ymgysylltu â chadeiryddion ystod o bartneriaethau strategol i gasglu eu barn ar y cynnydd i gysoni gweithgarwch partneriaethau ers adroddiad yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ym mis Mehefin 2020, a chyfleoedd a rhwystrau i gyflymu'r cynnydd hwnnw.
8. Ar y cyfan, y partneriaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymarfer ymgysylltu yw'r rhai a nodwyd yn yr Adolygiad gwreiddiol o Bartneriaethau Strategol.
9. Hyd yma, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Aelod Dynodedig wedi cwrdd â Chadeiryddion y partneriaethau canlynol fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu:-

Partneriaethau Strategol (amlybwrpas)

- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Partneriaethau Polisi Strategol (un pwrpas)

- Byrddau Cynllunio Ardal (camddefnyddio sylweddau)
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Partneriaethau Diogelu Rhanbarthol
- Partneriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

10. Mae swyddogion wedi cwrdd ar wahân â Chydlynwyr Datblygu Rhanbarthol sy'n cefnogi Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, un o'r partneriaethau eraill sydd wedi'u cynnwys o dan adolygiad 2019-2020.
11. Roedd cyfarfod pellach gyda Phartneriaethau Iechyd Meddwl wedi'i gynllunio ar gyfer 30 Ionawr, ond yn anffodus cafodd ei ohirio ac mae trefniadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfer ymgysylltu â'r partneriaethau hyn.
12. Nod yr ymarfer ymgysylltu yw casglu tystiolaeth yn systematig i roi sail gadarn i lywio camau gweithredu yn y dyfodol.
13. Cynhaliwyd pob un o'r trafodaethau mewn modd lled-strwythuredig, gan archwilio'r hyn sydd wedi digwydd ers yr adolygiad o bartneriaethau strategol, gan ganolbwyntio'n benodol ar:-
 - Gweithgarwch a wneir, neu a gynlluniwyd, i sicrhau bod trefniadau'r bartneriaeth yn gyson â gwaith partneriaethau eraill yn yr ardal;

- Cyfleoedd a rhwystrau lleol i gysoni neu resymoli trefniadau partneriaethau yn well;
- Opsiynau i gyflymu'r cynnydd.

14. Yn ystod y trafodaethau, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ailddatgan yr ymrwymiad i weithio gyda phartneriaethau i symleiddio a rhesymoli trefniadau yn eu hardaloedd lle bo hynny'n briodol.

Y camau nesaf

15. Yn dilyn gweddill yr ymgysylltu a gynlluniwyd, bydd dadansoddiad llawn o'r dystiolaeth sy'n deillio o'r ymarfer yn cael ei wneud. Bydd adroddiad yn nodi canfyddiadau allweddol, casgliadau a chamau gweithredu a argymhellir yn cael ei osod gerbron Cyngor Partneriaeth Cymru yn yr haf, er mwyn trafod a chytuno ar y ffordd ymlaen - gan gynnwys dull gweithredu ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Cwestiynau i'r Cyngor Partneriaeth eu hystyried

16. Croesawir barn y Cyngor Partneriaeth i lywio ystyriaeth y Gweinidog a'r Aelod Dynodedig, ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymarfer ymgysylltu â chadeiryddion partneriaethau strategol. Cydnabyddir y gallai rhai Aelodau o'r Cyngor Partneriaeth fod eisoes wedi bod yn rhan o drafodaethau yn eu rôl fel cadeiryddion partneriaethau strategol penodol. Dyma gyfle i'r Aelodau hynny gynnig unrhyw sylwadau pellach ac i Aelodau eraill gynnig eu barn.

17. Yn benodol, gofynnir i'r Aelodau am eu barn ar:-

- Y cynnydd o ran rhesymoli neu gysoni trefniadau partneriaethau yn well ers adroddiad yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol ym mis Mehefin 2020.
- Cyfleoedd a rhwystrau i wella cysondeb rhwng partneriaethau.
- Sut y gellid cefnogi'r gwaith i symleiddio a chysoni trefniadau partneriaethau mewn ardal.
- Rôl y Cyngor Partneriaeth wrth ysgogi'r camau gweithredu a argymhellir sy'n deillio o'r ymarfer hwn.

Llywodraeth Leol: Perfformiad a Phartneriaethau
Llywodraeth Cymru
Chwefror 2023